Mathemateg
5 i 9

# Ffracsiynau Gofod Mawr

- Ffracsiynau, Canrannau a Degolion

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd mathemateg yma'n ffordd ymarferol o archwilio ffracsiynau ac i ddisgyblion brofi eu gwerthoedd yn gorfforol.

## Adnoddau

- Sialc a chortyn i farcio siapiau
- Dillad addas i orwedd ar y llawr

## Gweithgaredd

1. Rhannwch y plant yn dimau bach.
2. Gofynnwch i bob tîm dynnu llun / gosod sgwâr 3m² yn ei le gyda sialc / rhaff.
3. Heriwch y timau i orchuddio gwahanol ffracsiynau drwy orwedd neu sefyll yn yr ardaloedd cywir.
4. Dechreuwch gyda ffracsiynau syml fel hanner, chwarter, wythfed, ac ati. Gallwch hefyd edrych ar ffracsiynau hafal i fesur dealltwriaeth o'r cysyniad.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich myfyrwyr. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd.

- Cynrychioli ffracsiynau gan ddefnyddio modelau gweledol
- Rhannu siapiau yn wahanol werthoedd ffracsiynau

Isod, rydyn ni wedi cynnwys rhai syniadau y mae addysgwyr eraill wedi'u defnyddio mewn cydweithrediad â'r gweithgaredd yma i bontio'r bwlch rhwng y tu mewn a'r awyr agored ar gyfer eu myfyrwyr.

| Maes Pwnc | Testun | Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach |
|---|---|---|
| AG | Symudiad corfforol | Chwarae'r gweithgaredd fel gêm lle mae'r disgyblion yn rhedeg i siâp arbennig neu'n creu ffracsiwn penodol cyn gynted â phosibl |
| ABaCh | Gwaith tîm a chyfathrebu | Cydweithio mewn grwpiau i ddod o hyd i'r ateb a chydweithio â'ch gilydd |
| Mathemateg | Ffracsiynau | Defnyddio'r un dechneg i ddarganfod ffracsiynau o wahanol siapiau e.e. cylch, triongl |
| | Rhif | Faint o bobl allwch chi eu ffitio mewn ffracsiwn penodol. Archwilio ffracsiynau rhif drwy ddefnyddio pobl |
| | Arwynebedd/ perimetr | Mesur arwynebedd a pherimetr y siapiau yn gywir |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890